O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2539 (Cy.278)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud *24 Hydref 2011*

Yn dod i rym *1 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – man i'r De o Birkenhead (A494 a'r A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gael ei wahardd oherwydd gwaith ffyrdd y bwriedir ei wneud.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 1 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau o gefnffyrdd yr A494 a'r A550 yng Nglannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.